# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd First Foundations (Camau Tirion)**

**Meithrinfa Camau Tirion**
**First Foundations**
**Heol Goffa**
**Llanelli**
**SA15 3EJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# First Foundations Day Nursery (Camau Tirion)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | First Foundations Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Chwefror 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae gan y plant lais da a gallant wneud dewisiadau am yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn ddiogel ac wedi ymgartrefu ac yn rhyngweithio'n hapus gyda'i gilydd a gyda'r staff. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a chânt gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu cefnogi i ddysgu a datblygu'n dda.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'n effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn sensitif ac yn cefnogi eu chwarae a'u dysgu yn dda. Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gofalu am y plant mewn amgylchedd diogel y maent yn eu cynnal yn dda. Maent yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a chyfarpar dan do ac yn yr awyr agored sy'n addas i'r plant sy'n eu defnyddio.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth dda ar gyfer y feithrinfa ac maent yn ymdrechu i ddarparu gofal plant o ansawdd da. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff yn dda ac yn meithrin cydberthnasau cryf â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.

## Llesiant — Da

Mae gan y plant lais da. Gallant wneud llawer o ddewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn treulio eu hamser. Er enghraifft, gallant ddewis chwarae dan do neu yn yr awyr agored am y rhan fwyaf o'r dydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfathrebu'n hyderus mewn modd sy'n briodol ar gyfer eu cam datblygu. Mae babanod a phlant iau yn defnyddio arwyddion dieiriau megis pwyntio tra bo'r rhan fwyaf o'r plant hŷn yn mynegi eu hunain drwy ddefnyddio geiriau ac ymadroddion. Caiff y plant gyfleoedd i gyfrannu eu syniadau ar gyfer cynllunio gweithgareddau a chynnig dewisiadau o ganeuon yn ystod amseroedd grŵp.

Mae'r plant yn ddiogel, wedi setlo ac yn fodlon eu byd. Maent yn meithrin cydberthnasau da iawn â'r staff ac yn dod yn gyfarwydd ac yn cydweithredu ag arferion y dydd, megis prydau bwyd ac amseroedd grŵp sy'n eu helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn. Mae'r babanod yn fodlon gofyn i'r staff chwarae ac i gael sylw a sicrwydd. Maent yn cael budd o gael amser yn cymysgu â phlant o grwpiau oed gwahanol a staff eraill pan fyddant yn yr awyr agored sy'n helpu â threfniadau trosglwyddo ac i feithrin hyder.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant iau yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, tra bo'r plant hŷn yn chwarae gyda'i gilydd ac yn dechrau meithrin grwpiau ffrindiau. Mae eu rhyngweithio â'i gilydd a'r staff yn gyson dda ac o ganlyniad mae'r pant yn dysgu rhannu, cymryd eu tro a chyd-dynnu ag eraill.

Mae'r plant yn mwynhau'r chwarae a'r dysgu yn fawr iawn. Maent yn frwdfrydig ac yn cymryd rhan weithredol yn y profiadau a ddarperir ar eu cyfer. O ganlyniad, maent yn datblygu sgiliau canolbwyntio a dyfalbarhad. Mae llawer yn treulio cyfnodau estynedig yn gwneud gweithgareddau hunanddewisol megis tynnu lluniau, chwarae yn y gegin fwd neu yn yr ardal chwarae rôl siop. Mae llawer o'r plant hŷn yn mwynhau gemau cymryd eu tro neu ddefnyddio toes chwarae. Mae'r babanod yn archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac roeddent wrth eu bodd yn deifio i mewn ac allan o'r pwll peli. Caiff y plant, gan gynnwys y babanod, hefyd gyfleoedd pwrpasol i ymuno yn yr amseroedd grŵp dan arweiniad oedolyn megis canu neu weithgareddau crefft.

Mae'r plant yn dysgu ac yn datblygu'n dda o'r cyfleodd a'r profiadau a ddarperir ar eu cyfer ar draws pob maes dysgu. Cânt gyfleoedd i archwilio amrywiaeth eang o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n cefnogi eu datblygiad cyffredinol. Mae'r plant yn meithrin annibyniaeth wrth iddynt ddewis yr hyn y maent am ei wneud a gyda chymorth maent yn dysgu i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, bwyta'n annibynnol, golchi eu dwylo a defnyddio'r ystafell ymolchi wrth iddynt dyfu a meithrin hyder wrth reoli eu hanghenion gofal personol.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau da ar waith yn effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Gwnaethant roi atebion hyderus i senarios am amddiffyn plant ac roeddent yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am y plant neu'r oedolion. Mae sawl aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu yn unol â gofynion y safonau gofynnol cenedlaethol diwygiedig ac mae arweinwyr wedi trefnu cyrsiau priodol ar gyfer eraill. Mae'r staff yn gyson yn dilyn gweithdrefnau cadarn mewn perthynas â chofnodi damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw anafiadau gall y plant gyrraedd gyda nhw. Maent yn rhoi gweithdrefnau hylendid da ar waith mewn perthynas â newid cewynnau a pharatoi a gweini bwyd. Mae'r staff yn ymwybodol o unrhyw alergeddau sydd gan y plant ac maent yn dilyn systemau gofalus i reoli'r rhain. Maent yn annog ffordd o fyw iach drwy roi prydau maethlon sy'n cael eu coginio ar y safle i'r plant a sicrhau eu bod yn cael digon o gyfleoedd i chwarae'n gorfforol yn yr awyr iach.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gyson dda. Mae'r staff yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd ac yn creu awyrgylch tawel, gan siarad yn barchus gyda'i gilydd a gyda'r plant. Maent yn fodelau rôl rhagorol. Mae'r staff yn rhoi polisi rheoli ymddygiad da ar waith yn effeithiol. Maent yn rhoi llawer o ganmoliaeth ac yn defnyddio strategaethau cadarnhaol i reoli unrhyw faterion mân.

Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio ac yn darparu gweithgareddau o amgylch themâu ac yn rhoi cyfleoedd i'r plant ychwanegu eu syniadau at y rhain. Er enghraifft, gwelsom fapiau meddwl o syniadau'r plant o amgylch y thema gyfredol sef yr Haf. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau crefft bob amser yn rhoi cwmpas llawn i'r plant arbrofi â gwahanol gyfryngau a datblygu eu creadigrwydd eu hunain. Mae'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r Cwricwlwm i Gymru yn dda er mwyn cefnogi eu cynllunio a'u darpariaeth. Maent yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i wneud penderfyniadau ac arwain eu chwarae eu hunain. Mae ymgysylltiad y staff â'r plant a'r gweithgareddau yn gryfder ac o ganlyniad mae'r plant yn gwneud cynnydd da. Maent yn defnyddio Cymraeg achlysurol ac yn siarad â'r plant yn ddwyieithog er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Mae'r staff yn arsylwi'r plant ac yn defnyddio eu harsylwadau i nodi'r hyn sydd ei angen ar y plant er mwyn dysgu a llywio eu gwaith cynllunio. Maent yn defnyddio systemau olrhain Dechrau'n Deg i gofnodi datblygiad y plant dros ddwy flynedd. Nid yw'r staff yn olrhain datblygiad y plant iau ac nid ydynt hyd yma wedi ystyried y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru er mwyn helpu i'w cefnogi. Mae'r staff yn ymwybodol o'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n dod i'r amlwg. Maent yn cefnogi'r plant yn dda iawn, gan ddarparu cymorth un i un cyson pan fydd angen a gweithio'n dda gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r staff yn gwella profiadau'r plant i gyd ac yn eu helpu i feithrin ymdeimlad o gymuned â theithiau cerdded yn yr ardal leol ac ymwelwyr i'r feithrinfa megis swyddogion yr heddlu.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan yr arweinwyr fesurau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant yn llwyr. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr a'r staff yn rheoli mynediad i'r lleoliad yn dda. Maent yn cofnodi ymwelwyr a phresenoldeb y plant a'r staff yn gyson ac yn gywir, gan gynnwys adlewyrchu amseroedd egwyl y staff a phan fydd y feithrinfa allan ar deithiau ysgol. Maent yn cwblhau ac yn adolygu asesiadau risg addas yn rheolaidd ar gyfer pob agwedd ar y ffordd y mae'r feithrinfa'n cael ei rhedeg, er nad ydynt bob amser yn asesu risg pob gweithgaredd. Mae'r staff yn cynnal gwiriadau diogelwch cynhwysfawr dyddiol ac yn cwblhau cofnodion glanhau yn gyson. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn trefnu profion ar gyfer cyfarpar trydanol, y boeler nwy a'r cyfarpar atal tân. Maent yn cynnal ymarferion tân bob mis ac yn cadw cofnodion manwl ohonynt er mwyn sicrhau y gall pob aelod o'r staff a phob plentyn adael yr adeilad mewn argyfwng. Mae pob rhan o'r feithrinfa yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r ystafelloedd chwarae yn olau ac yn groesawgar. Maent wedi eu haddurno mewn lliwiau niwtral sy'n cyfrannu at awyrgylch hamddenol. Mae plant hŷn eraill yn cael budd o ddefnyddio ystafell dawelach, yn ogystal â phrif ystafell chwarae a defnyddio ystafell fwyta sydd hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer gemau bwrdd a gweithgareddau yn ystod y dydd. Mae'r ystafell dawel yn troi i mewn i le cysgu gyda gwelyau isel neu fatiau ar gyfer y plant sydd angen gorffwys. Gall y plant ddefnyddio toiledau o faint addas yn uniongyrchol o'r brif ystafell chwarae sy'n cefnogi eu hannibyniaeth gynyddol gyda gofal personol. Mae gan y babanod eu hystafell chwarae benodol eu hunain gydag ystafell gysgu addas sydd yn union oddi ar yr ystafell lle gallant gysgu heb gael eu rhwystro, ond gall y staff gadw golwg arnynt yn hawdd. Mae cyfleusterau newid cewynnau priodol sy'n caniatáu cyfleoedd i amddiffyn preifatrwydd ac urddas y plant. Mae gan bpb plentyn ddigon o le i symud o gwmpas yn rhydd, i chwarae ac i ddefnyddio adnoddau'n annibynnol. Gallant ddefnyddio ardaloedd yn yr awyr agored yn uniongyrchol o'r ystafell fwyta ac ystafell y babanod. Mae ystafell ddosbarth fawr dan do yn yr awyr agored sy'n darparu cyfleoedd pellach da i ddysgu ar draws pob maes datblygu yn ogystal ag ardal wedi'i ffensio sy'n bennaf ar gyfer chwarae mwy corfforol megis dringo, cydbwyso neu gemau pêl.

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn, cyfarpar ac amrywiaeth eang o adnoddau dan do ac yn yr awyr agored i blant o bob oedran sydd o ansawdd da ac sy'n addas ar gyfer y plant sy'n eu defnyddio. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o silffoedd agored a basgedi storio deniadol sy'n galluogi'r plant i gael gafael ar adnoddau yn annibynnol ac sy'n gweithredu fel rhanwyr i greu ardaloedd chwarae megis cornel cartref neu ardal chwarae ar y llawr. Mae rhai o'r adnoddau yn ddeunyddiau naturiol. Fodd bynnag, mae'r adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth neu y gall y plant eu defnyddio'n ddychmygol at ddibenion gwahanol yn fwy cyfyngedig. Mae'r adnoddau awyr agored yn cynnwys teganau ag olwynion, cyfarpar dringo, ardal gwneud marciau a chegin fwd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth dda ar gyfer y lleoliad, ac yn ei rhannu â'r staff yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae'r gwaith papur yn drefnus iawn ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae ganddynt amrywiaeth cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cefnogi'r gwaith o redeg y feithrinfa'n ddiogel ac yn ddidrafferth. Mae gan yr arweinwyr Ddatganiad o Ddiben clir a manwl ar waith sy'n adlewyrchu'r gwasanaethau a gynigir ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer y rhieni. Maent yn darparu'r holl ddogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd hunanwerthuso ac yn adolygu ansawdd eu gofal yn flynyddol. Maent yn ceisio safbwyntiau eu rhieni, y plant, y staff a rhanddeiliaid eraill ac yn eu defnyddio i helpu i lywio eu hadolygiad. Mae'r arweinwyr yn cynhyrchu adroddiad o'r adolygiad sy'n cynnig gwerthusiad o'r feithrinfa ac sy'n nodi meysydd perthnasol yr hoffent eu gwella. O hyn, maent yn datblygu cynllun gweithredu â thargedau llai er mwyn cyflawni eu nodau. Mae'r arweinwyr yn barod i dderbyn adborth ac yn croesawu syniadau neu awgrymiadau i wella eu hymarfer.

Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith i ddiogelu'r plant ac er mwyn sicrhau bod gan y staff y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i ddarparu gofal o safon. Mae'r holl hyfforddiant gorfodol a'r gwiriadau addasrwydd ar gyfer y staff yn gyfredol. Fodd bynnag, er bod yr unigolyn cyfrifol wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn y tair blynedd diwethaf nid yw wedi cael ei wrthlofnodi gan Weinidogion Cymru. Felly, mae wedi gwneud cais am un newydd. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff yn effeithiol drwy eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn ystyrlon a thrwy arfarnu'r staff a dywedodd y staff eu bod yn eu gweld yn ddefnyddiol. Maent yn cefnogi hyfforddiant ychwanegol i'r staff wella a datblygu eu hymarfer. Mae'r arweinwyr yn defnyddio staff yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal cymarebau drwy gydol y dydd ac o ganlyniad yn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon ar y feithrinfa, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gallu mynegi eu safbwyntiau.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn gweithio gyda thimau'r awdurdod lleol megis Dechrau’n Deg a Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar er mwyn cefnogi eu darpariaeth. Maent yn datblygu cysylltiadau yn y gymuned drwy ymwelwyr i'r feithrinfa a theithiau allan. Mae'r arweinwyr a'r staff yn datblygu cydberthnasau cryf â'r rhieni. Maent yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol cyn i'r plant ddechrau yn y feithrinfa er mwyn eu galluogi i gefnogi anghenion unigol yn effeithiol. Maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am eu plant drwy amrywiaeth o ddulliau sy'n cynnwys adborth ar lafar, defnyddio ap electronig a noson agored flynyddol. Rhoddodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol am y gwasanaeth y maen nhw a'u plant yn ei gael ac maent yn fodlon iawn yn mynychu'r feithrinfa.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 23 - Cyfarpar | Datblygu adnoddau er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Parhau datblygiadau'n ymwneud â'r cwricwlwm, cynllunio ac adnoddau yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru ac ystyried y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru er mwyn cefnogi'r gwaith hwn gyda phlant iau. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/09/2024